



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Cynnig GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021. Mae'r cynnig wedi'i symleiddio eleni ac yn canolbwyntio ar 5 prif faes sef Lles, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Digidol. Bydd eich Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn trafod eich anghenion Dysgu Proffesiynol gyda chi yn eich cyfarfodydd unigol ac/neu clwstwr er mwyn adnabod cynllun unigryw ar gyfer eich dalgylch.



Adnoddau Dysgu Cyfunol

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [School Guide](#) | **Cymraeg** - [Gwybodaeth i ysgolion](#)

Mae tudalen wybodaeth i'ch Llywodraethwyr hefyd, cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [Governors Guidance](#) | **Cymraeg** - [Canllawiau Llywodraethwyr](#)



Cyfleoedd a Rhaglenni Datblygu Proffesiynol GwE

Rhaglen Cymell & Mentora draws-rhanbarthol 2020-21



Gwahoddir Penaethiaid i fynegi diddordeb yn y rhaglen draws-rhanbarthol hon, sydd wedi ei hariannu'n llawn. Cynlluniwyd y Rhaglen i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau mewn cymell a mentora effeithiol. Darperir y rhaglen ar draws 6 x sesiwn hyfforddi dysgu o bell 3.5-awr, yn nhymor y gwanwyn.

Cliciwch [yma](#) am ragor o fanylion.

Person cyswllt yn GwE: anngrenet@gwegogledd.cymru

I fynegi diddordeb, cwblhewch y [ffurflen](#) hon erbyn **16.12.20** os gwelwch yn dda.



Cyfle cyffrous i Gynorthwyrwyr Addysgu newydd!

Mae'r Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwyrwyr Addysgu ar gyfer unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan digidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwyrwyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

Yn 2020-21, bydd newidiadau sylweddol i reoliadau Sefydlu ANG, a bydd yn bwysicach nag erioed bod pob Mentor Sefydlu ysgol (MS), ANG a Gwiriwr Allanol (GA) yn mynychu un o'r sesiynau hyfforddi/brifio cenedlaethol. Bydd ystod o sesiynau pwrpasol ar-lein ar gyfer pob rôl.

[Dylai ysgolion enwebu MS i fynychu sesiwn hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi penodi athro fydd yn ANG ym mis Medi ar hyn o bryd, gan fod y mwyafrif o ysgolion yn cyflogi ANG ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd].

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth/am ddyddiadau'r sesiynau hyfforddi.

Mae dyddiadau sesiynau hyfforddi Awdurdodau Lleol ar gyfer ANG hefyd ar gael yma, ynghyd â'r manylion cyswllt ar gyfer pob Awdurdod.

Cynnig Dysgu Proffesiynol: Trawsnewid ADY

Mae posib cofrestru yn G6 ar gyfer yr hyfforddiant mis Rhagfyr, ond gall bod rhywfaint o oedi cyn bod posib i chi gofrestru ar gyfer y dyddiadau yn y flwyddyn newydd.

Osgoi anghytundebau

Delio gyda sefyllfaoedd anodd a Rheoli Sgyrsiau Anodd

Mae hwn yn becyn 2 sesiwn ac felly rydym yn awgrymu i chi ymrwymo i'r ddau

SESIWN 1	Delio gyda sefyllfaoedd anodd	11/12/2020	9:30 – 12:00
SESIWN 2	Rheoli Sgyrsiau Anodd	16/12/2020	9:30 – 12:00

Strategaethau cyfathrebu cadarnhaol

SESIWN 1	Strategaethau cyfathrebu Cadarnhaol	14/12/2020	13:00-14:00
----------	-------------------------------------	------------	-------------

Am ragor o fanylion a dyddiadau ychwanegol, [cliciwch yma](#).

Am arweiniad ar sut i archebu lle trwy G6, [cliciwch yma](#).



Newyddion a Gwybodaeth GwE

Mynediad i adnoddau Llesiant am ddim

Fel rhan o gynnig proffesiynol "Llesiant" gweler manylion pellach parthed sut i gael mynediad i drwyddedau ac adnoddau pellach:

1. Meddwl yn Wahanol ar gyfer dysgwyr difreintiedig
2. Mynediad i drwydded SEAL (Social Emotional Aspects of Learning)

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.



Hyfforddiant Digidol Ar-lein

Rydym yn falch o gyhoeddi bod adnodd digidol newydd wedi ei lansio ar 'Canolfan Cefnogaeth GwE'. Mae cyfres o gyrsiau ar-lein ar gael, sydd wedi eu cynllunio ar gyfer ymarferwyr ar bob lefel o brofiad i wella eu defnydd a'u dealltwriaeth o Google Classroom, Adobe Spark, j2e a Flipgrid. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau yn para oddeutu 40-60 munud. Bydd pob cwrs yn cynnwys cyfres o glipiau fideo, tasgau ymarferol ac yna asesiad ar-lein ar y diwedd fydd yn nodi a ydych chi'n barod i symud ymlaen i'r cwrs nesaf yn y gyfres. Gellir eu defnyddio yn ystod cyfarfodydd staff, nosweithiau gwyll, dyddiau hyfforddiant mewn swydd, cyfnod CPA neu fel y dymunwch.

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar y [ddolen hon](#).



Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).

Mae cymorth gweithredu ar gael drwy gyswllt fideo i **bob ysgol** yn rhanbarth GwE.

Bydd Kaydee Owen (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

- 9 Rhagfyr
- 6 Ionawr *
- 9 Chwefror
- 11 Mawrth

Trefnwch amser ar-lein ar gyfer cyfarfod un i un : <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

Er mwyn cael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuol hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwyliwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).

***Sylwch fod y dyddiad wedi newid.**

Rhaglen Dysgu Carlam

Peidiwch ag anghofio bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gael mynediad i'r adnoddau yn adran Sgiliau Carlam Canolfan Cefnogaeth GwE ar gael ar y dudalen gweminarau. Dilynwch y ddolen hon i weld recordiadau am **SAFMEDS, Headsprout, Cyflymu Llythrennedd a sgiliau Rhifedd**, yn ogystal â'r adolygiadau o **becynnau cymorth llythrennedd a rhifedd ar-lein**.

Anfonwch unrhyw ymholiadau i llythrenneddarhifedd@gwegogledd.cymru

Hyfforddiant Proffesiynol ar Addysg Ariannol

Gwahoddir pob ymarferydd sydd yn gweithio gyda dysgwyr 9 i 12 oed i gymryd rhan ym mhrosiect Braenaru Cymru. Bwriad y prosiect yw rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu'n broffesiynol er mwyn cefnogi gwybodaeth, sgiliau ac agweddau eu dysgwyr ym meysydd allweddol addysg ariannol. Ariennir y prosiect gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau ac fe'i gyflwynir gan Young Money gyda chymorth GwE dros dymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021. Darperir hyfforddiant, adnoddau a chymorth parhaus yn rhad ac am ddim i bawb a fydd yn cymryd rhan, a thelir costau llanw hefyd.

Am fwy o wybodaeth, cliciwch [yma](#).



Dosbarth Google Dysgu Cyfunol Dwyieithog

Mae dau [Ddosbarth Google](#) dysgu cyfunol dwyieithog newydd o'r enw 'Nadolig' ac 'Enwogion y Castell' wedi'u creu ar gyfer athrawon CA2.

Efallai y bydd y casgliad hwn o weithgareddau yn ddefnyddiol i chi. Nid ydynt yn themâu cydlynus, ond yn gasgliad o unedau sy'n modelu dysgu cyfunol y gallwch ddewis a dethol ohonynt. Mae'r dosbarth Nadolig yn cynnwys cyfuniad o weithgareddau digidol a thraddodiadol.

Gweler y codau ar gyfer cael mynediad i'r dosbarthiadau isod. Pe byddech yn dymuno copi athro o'r dosbarthiadau, mae dolen o fewn y dosbarthiadau o dan y pennawd 'Cyflwyniad'. Dilynwch y cyfarwyddiadau 'Gwneud cais am gopi athro'.

Codau'r dosbarthiadau newydd felly yw:

Nadolig / Christmas (**kei6znf**)

Enwogion yn y Castell/Celebrities in the Castle (**w2h755h**)

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Lywodraeth Cymru

Arolwg: Effaith Covid ar Ddysgwyr

Mae pandemig y coronafeirws (Covid-19) wedi effeithio ar fywydau pob un ohonom. Mae ymchwilwyr Llywodraeth Cymru am ddeall mwy am effaith y pandemig ar ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r arolwg wedi'i anelu at y rhai sydd **ar hyn o bryd yn ddysgwyr 16 oed neu'n hŷn, sy'n astudio yn y chweched dosbarth mewn ysgolion, addysg bellach, addysg seiliedig ar waith neu ddysgu oedolion mewn coleg neu'r gymuned.**

I gwblhau'r arolwg cliciwch yma: <https://www.smartsurvey.co.uk/s/post16learning/>

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at [Ymchwil Cyflogadwyedd a Sgiliau](#). Diolch ymlaen llaw am eich cymorth.

Fersiynau Rhyngweithiol o'r FfLLRh a FfCD

Mae fersiynau rhyngweithiol o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol nawr ar gael trwy ddilyn y [ddolen hon](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Adnoddau rhifedd ychwanegol ar gael

Fe gafodd y profion Rhifedd Rhesymu ar-bapur olaf eu canslo o ganlyniad i Covid. Rydym yn awr yn cynnig y papurau i unrhyw ysgol sydd eisiau eu defnyddio fel adnoddau yn y dosbarth. Noder: mater dewisol yw eu harchebu ac nid yw eu defnyddio yn statudol.

Os hoffech eu harchebu, ymatebwch i'r llythyr a anfonwyd i'ch ysgol drwy anfon e-bost i aplc@profioncenedlaethol.cymru

Y dyddiad cau ar gyfer archebion yw 11 Rhagfyr.

Tueddiadau leithoedd yng Nghymru 2020 – Y Sgwrs



Mae'n bleser gan British Council Cymru eich gwahodd i ymuno â ni ddydd **Iau 10 Rhagfyr, 4.30pm – 5.30pm GMT**, am drafodaeth ynghylch *'Tueddiadau leithoedd yng Nghymru 2020 – Y Sgwrs'*. Yn ystod y digwyddiad bydd cyfle i chi glywed gan banel o arbenigwyr o Gymru ac arbenigwyr rhyngwladol, ymateb i'r erthyglau a gyhoeddwyd fel rhan o *'Tueddiadau leithoedd Cymru 2020 – Y Sgwrs'*, a rhannu eich syniadau a'ch sylwadau am ddyfodol amlieithrwydd yng Nghymru.

COFRESTRWCH YMA

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y digwyddiad, cysylltwch â ni drwy: teamwales@britishcouncil.org

#TueddiadauleithoeddCymru

Cwrs Hyfforddiant Plentyndod Naturiol [Cyfoeth Naturiol Cymru]



Ym mis Ionawr bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cwrs rhithwir yn llawn awgrymiadau a thriciau ar sut i ddefnyddio'r awyr agored i gefnogi datblygiad, dysgu a chwarae plant. Mae'r cwrs wedi'i anelu at ymarferwyr ac athrawon Cyn-ysgol, Meithrin a'r Cyfnod Sylfaen.

Am ragor o fanylion, cliciwch [yma](#).

I gofrestru, ewch i wefan i [Tocyn Cymru](#)

Cyflwyniad i *Inspire Maths: Teaching in Wales*



Ydych chi'n athro newydd neu'n athro cyflenwi sy'n gweithio mewn ysgol sy'n defnyddio *Inspire Maths*? Allech chi elwa ar gael sesiwn gloywi?

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion [manyllion Saesneg yn unig].

post@gwegogledd.cymru

